

Datganiad i'r Cyfryngau
6 Ionawr 2026
I'w ryddhau ar unwaith

Ffilmiau Cymreig i'w Gwyllo yn 2026

O fywyd ym Mlaenau Ffestiniog drwy lygaid Effi, i ddigwyddiad arallfydol 'Roswelsh' mewn tref glan-môr yng Nghymru, mae llw o straeon newydd ar y ffordd i sinemâu yn 2026.

Ewch ar siwrnai o hunan-ddarganfyddiad eleni a chysylltwch â chymeriadau gwahanol - o dref dur Port Talbot i weithwyr gwelyau cregyn gleision Ynys Môn. Darganfyddwch ffilmiau twymgalon, ffilmiau dogfen ysgytiol, yn ogystal â thamaid o ddial, anrhefn a mw - â'r cyfan yn gysylltiedig i Gymru - o'r lleoliadau, i'r cast a'r talentau y tu ôl i'r camera.

Bydd y flwyddyn yn dechrau gyda rhyddhau'r ddrama fywgraffiadol *H is for Hawk*, (23 Ionawr), ffilm a gynhyrchwyd gan John Giwa-Amu o Gaerdydd (*The Man in My Basement*). Mae'r ffilm yn adrodd stori wir Helen Macdonald (Claire Foy), menyw sy'n galaru am ei thad (Brendan Gleeson) sy'n dod o hyd i gysur yn ei chyfeillgarwch â gwyddwalch ystyfnig o'r enw Mabel.

Mae Joedi Langley, Pennaeth dros dro Cymru Greadigol yn edrych yn ôl ar ffilmiau Cymreig o 2025 ac ymlaen i'r gefnogaeth sydd i ddod yn 2026:

'Mae 2025 wedi bod yn flwyddyn anhygoel i ffilmiau a grëwyd yng Nghymru. O stori tarddiad Richard Burton yn cyrraedd y byd drwy'r ffilm Mr Burton, i ddangos The Man in My Basement yng Ngŵyl Ffilmiau Toronto, a ffilm Brides yn cael ei henwebu ar gyfer gwobr gŵyl Sundance, i enwi ond ychydig esiamplau. Mae'r flwyddyn nesaf yn argoeli'n gyffrous iawn hefyd, gan ddechrau gyda rhyddhau'r ffilm hyfryd H is for Hawk ym mis Ionawr, yn ogystal â stori wir 5ed Ardalydd Ynys Môn, Henry Paget, yn y ffilm Madfabulous, a'r ffilm Gymraeg Effi o Blaenau a gyllidwyd ar y cyd gan Gymru Greadigol a S4C, sydd wrthi'n gorffen trefnu dangosiadau mewn gwyliau ffilmiau ar hyn o bryd. Mae Cymru Greadigol wedi ymrwymo i roi'r gefnogaeth hanfodol y mae ei hangen i'r sector hon sy'n tyfu. A hynny er mwyn iddo barhau i ffynnu drwy gyllid a drwy gysylltu gweithwyr creadigol o fewn y diwydiant gyda rhaglenni er mwyn sicrhau bod gan ffilmiau Cymreig y platfform i gael eu mwynhau gan gynulleidfaoedd yma yng Nghymru ac o amgylch y byd.'

Hefyd yn ystod 2026 fe ddisgwylir amryw o ffilmiau sy'n rhoi mewnwelediad i gynulleidfaoedd i fywyd yng Nghymru. Mae gennym ni nid un ond tair ffilm sydd wedi'i lleoli neu sy'n gysylltiedig ag Ynys Môn. Yn gyntaf mae *On the Sea* ffilm sy'n dilyn Jack a'i deulu wrth iddynt gribinio gwelyau cregyn gleision â llaw. Yn y gymuned wledig, anghysbell yma, ble mae bywyd yn ymwneud yn llwyr â physgota a'r Eglwys, mae Jack yn cwmpo mewn cariad â'r gweithiwr teithiol, Daniel. Mae gennym hefyd *Madfabulous*

gan gwmni cynhyrchu Gogledd Cymru, *Mad as Birds* - ffilm y mae edrych ymlaen yn fawr amdani. Mae'r ffilm yn dangos bywyd y 5ed Ardalydd rhyfeddol ecsentrig Henry Cyril Paget. Wedi'i ffilmio ar leoliad ar Ynys Môn, yn ogystal â Chaernarfon a Phyllheli, mae'r ffilm yn serennu'r actor o Gymru, Callum Scott Howells, ochr yn ochr â Rupert Everett a Siobhán McSweeney. Cyfarwyddwyd y ffilm gan Celyn Jones sy'n dod o Ynys Môn. Ac yn olaf, *Black Church Bay*, ffilm iasol a ffilmwyd ar Ynys Môn gan y cyfarwyddwr o Gymru / Iwerddon, Rhys Marc Jones, gyda'r actor o Gymru, Tom Cullen, yn serennu. Mae bywyd athro uchel ei barch yn datod yn llwyr pan fydd y myfyriwr chweched dosbarth y mae mewn perthynas gyfrinachol ag ef, yn diflannu mewn pentref arfordirol anghysbell.

Mae'r actor a'r cyfarwyddwr Celyn Jones, a fu'n rhan o'r tri chynhyrchiad, yn dathlu'r foment yma i Ynys Môn ar y sgrin fawr:

"Tair ffilm - pob un wedi'i chreu yn Ynys Môn a phob un yn wahanol ac wedi'i chreu'n furiadol ar gyfer y sgrin fawr. O ddrama hyfryd a theimladwy Helen Walsh (On the Sea) am gariad ym mhob ffurf, i raddfa, harddwch, emosiwn a thorcalon fy llythyr cariad i'm cartref (Madfabulous) a sgript dywyll a hanfodol Black Church Bay. Mae'n ymwneud â'r eiliadau hynny pan ddaw pobl at ei gilydd i greu rhywbeth. Mae'n ymwneud â'r cysylltiad dynol yn y broses o greu ffilmiau. Mae'n ddiwydiant hyfyw sydd â digon o le i bawb sydd am ymuno - mae sedd wrth y bwrdd i bawb... mae sedd wrth y bwrdd i Ynys Môn! Dyma pam na wnâi fyth stopio cymeradwyo a gwthio a chreu gwaith sydd ag Ynys Môn wrth galon y cyfan."

Wrth deithio draw i Flaenau Ffestiniog, rydym yn cyfarfod *Effi o Blaenau*. Gyda Leisa Gwenllian yn serennu a Marc Evans (*Mr Burton*) yn cyfarwyddo, mae hwn yn addasiad ar gyfer y sgrin fawr o glasur modern Gary Owen - y ddrama Gymreig *Iphigenia in Splott*. Yn ymdopi â'i bywyd beunyddiol o ddiweithdra, clybiau nos a dioddef gyda phen mawr, mae Effi yn cwrdd ar hap â'r milwr Lee sydd wedi'i anafu, a hynny mewn clwb nos yn Llandudno, gan agor y drws i rywbeth gwell. Am eiliad mae Effi'n cael cipolwg ar fywyd nad oedd hi erioed wedi'i ddychmygu. Mae'r realiti sy'n dilyn yn llawer anoddach.

I'r rheiny sy'n hoff o ffilmiau arswyd amgylcheddol, mae ffilm hir ddisgwyliedig y cyfarwyddwr o Gymru Craig Roberts *The Scurry*. Wedi'i ffilmio yn Stiwdio'r Ddraig, Pen-y-bont, ac yn serennu Rhys Ifans ac Ella Purnell, dyma stori am ddau reolwr plâu sy'n dod ar draws lluo o wiwerod gwallgof sy'n dial ar y staff a'r ymwelwyr mewn parc eco-wledig. I'r rheiny sy'n hoffi eu ffilmiau brawychus yn fwy melodig, mae *Stuffed*, sioe gerdd-arswyd-rhamant newydd wreiddiol a ffilmwyd yn Ne Cymru gyda Jodie Comer yn serennu fel tacsidermydd synfyfyriol sydd a'i phryd ar stwffio sbesimen dynol. Ac o safbwynt arswyd llên gwerin Cymreig fwy chwedlonol, mae *Rabbit Trap*, ar y gorwel (dyddiad rhyddhau 30 Ionawr). Wedi'i gosod yn y 1970au, mae'n dilyn cwpl priod (Dev Patel a Rosy McEwen) sy'n symud i gaban ynysig yng Nghymru lle maent yn tarfu ar gylch tylwyth teg yn ddamweiniol. Daw plentyn dirgel i'w gweld, ac mae'n dod yn amlwg nad oes ganddo fwriad da.

Ar gyfer taith sinema i'r teulu cyfan, mae *Out There* yn argoeli'n ffilm comedi wyddonias dwymgalon. Mae'r gofodwr amatur, Maz, yn gweld UFO yn yr awyr uwchben ei thref glan môr tawel. Gan lusgo ei ffrind gorau amheus, Cari, yn ogystal ag iwffolegydd gwallgof, Michael Sheen, mae Maz yn datgelu gwirionedd nad yw'n barod i'w wynebu. Mae *Learning to Breathe Underwater* yn ddrama gomedi newydd, a gyd-gynhyrchwyd gan One Wave Films o Gaerdydd (*Still Pushing Pineapples*), am Leo, breuddwydiwr

wyth oed, sy'n byw gyda'i dad ecsentrig. Mae bywyd Leo yn cael ei newid yn sydyn dros nos, gan ddyfodiad Anya, 'au pair' fywiog o Fwlgaria.

I'r rhai sy'n hoff o ffilmiau dogfen, mae 2026 yn addo straeon ffeithiol hynod ddiddorol gan ddau gynhyrchydd blaenllaw o Gymru. Mae *Smoking Shores*, gan Dewi Gregory o Truth Department a'r cynhyrchydd gweithredol Michael Sheen, yn cyflwyno cymuned syrffio Port Talbot. Ac mae'r cynhyrchydd o Gymru Rob Alexander yn dilyn yr actor/ysgrifennwr anabl David Proud yn y ffilm *Proud*. Mae David yn dyheu am deulu, ond mae'r technegau ffrwythlondeb sydd eu hangen arno wedi'u cynllunio i greu "plant iach" a sgrinio a gwrthod pobl anabl fel ef. Beth mae hyn yn ei olygu i bobl fel David, sydd o bosibl yn wynebu eu 'difodiant' eu hunain?

Gyda hyd yn oed mwy o ffilmiau i ddod, megis archwiliad pync o'r seice yn y ffilm wefreiddiol *Mission*, i frwydr un fam yn erbyn drygioni yn *Unspeakable*, mae digon o ddewis ar y gorwel.

Mae Hana Lewis, Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru yn esbonio pam fod prosiect Gwnaethpwyd yng Nghymru Canolfan Ffilm Cymru yn cefnogi ymgyrchoedd megis y rhain:

"Rydym yn gwybod ei bod yn bwysig i sinemâu Cymru a'u cynulleidfaoedd allu cysylltu â straeon sy'n adlewyrchu eu bywydau, eu cymunedau a'u hiaith, yn ogystal â ffilmiau gan storiwyr Cymreig sy'n dod â'r byd rhyngwladol at eu stepen drws yng Nghymru. Ein nod yw helpu'r straeon hynny i gyrraedd pobl, yn ddelfrydol mewn lleoliad sinema cyfunol, gan sicrhau bod ffilm sy'n cael ei chreu hefyd yn cael ei gweld."

Mae prosiect Gwnaethpwyd yng Nghymru (GYNg) Canolfan Ffilm Cymru yn dathlu ffilmiau sydd â chysylltiadau Cymreig. Mae'n cynnig gweithgareddau ar hyd y flwyddyn mewn partneriaeth ag arddangoswyr yng Nghymru, gan gynnwys [catalog ffilmiau](#), sy'n gartref i dros 1000 o ffilmiau hir a byr a phodlediad Gwnaethpwyd yng Nghymru. Gall cynulleidfaoedd dderbyn y newyddion diweddaraf ynglŷn â ffilmiau Cymreig newydd a'r cyfweiliadau diweddaraf drwy ddilyn Gwnaethpwyd Yng Nghymru ar [Instagram](#), [Facebook](#), [TikTok](#), [podlediad Gwnaethpwyd yng Nghymru](#), [YouTube](#) a [Letterboxd](#).

Mae GYNg yn bosib drwy gyllid Cymru Greadigol a Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (RhCFf) y BFI. Mae RhCFf y BFI yn cynnig cefnogaeth i arddangoswyr ledled y DU, er mwyn hybu rhaglennu diwylliannol ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol. Yng Nghymru, arweinir y gweithgarwch gan Ganolfan Ffilm Cymru, dan reolaeth Chapter.

- DIWEDD -

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Reg Noyes, Rheolwr Prosiect Gwnaethpwyd yng Nghymru - reg@filmhubwales.org
Jade Atkinson, Cydlynnydd Marchnata Aelodau - 02920 311 057 / jade@filmhubwales.org
Lisa Nesbitt, Swyddog Cynorthwyo Aelodau - 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org

Ffilmiau Cymreig 2026

Archive, Access Action

Dyddiad Rhyddhau: Allan Nawr

Cysylltiadau Cymreig: Amrywiol

Pecyn o ffilmiau byrion a ddaeth o ganlyniad i brosiect 'Cymru Anabl' (2024) gan Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Fel rhan o'r prosiect, fe gomisiynwyd deunyddiau hygyrch ar gyfer y ffilmiau hyn, a hynny fel cam bach tuag at sicrhau bod ffilmiau archif yn hygyrch. Mae'r casgliad yn cynnwys ffilmiau dogfen creadigol sy'n canolbwyntio ar fywydau pobl Fyddar ac anabl, yn ogystal â dramâu ac animeiddiadau byrion. Roedd 'Cymru Anabl' yn brosiect gan Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru mewn partneriaeth â Disability Arts Cymru, Cwmni Theatr Hijinx a TAPE: Cerdd a Ffilm Cymunedol, gyda chefnogaeth gan gronfa Treftadaeth Sgrin Loteri Genedlaethol y BFI.

H is for Hawk

Dyddiad Rhyddhau: 23 Ionawr 2026

Cysylltiadau Cymreig: John Giwa-Amu (cynhyrchydd), Caerdydd, Cymru (lleoliad ffilmio). Ariannwyd gan Gymru Greadigol gyda chefnogaeth gan Ffilm Cymru Wales.

Crynodeb: Yn olrhain stori wir Helen Macdonald (Claire Foy), sy'n colli ei thad y ffotoneuwyddiadurwr uchel ei barch (Brendan Gleeson) o ganlyniad i drawiad ar y galon. Mae'r ffilm hon yn dangos y cysur annisgwyl mae Helen yn ei ddarganfod yng nghwmni gwyddwalch ystyfnig o'r gogledd o'r enw Mabel. Mae'r her o hyfforddi gwyddwalch ifanc yn dod yn ganllaw i Helen drwy'r broses alaru ac mae ei chysylltiad unigryw â Mabel yn ei hailgyflwyno i harddwch bywyd a byd natur.

Rabbit Trap

Dyddiad Rhyddhau: 30 Ionawr, 2026

Cysylltiadau Cymreig: Mad as Birds (cwmni cynhyrchu), wedi'i gosod yng Nghymru, stori am chwedloniaeth Tylwyth Teg Cymru.

Crynodeb: Wedi'i gosod ym 1973, mae Rabbit Trap yn stori am y cerddorion priod Daphne a Darcy Davenport, sydd wedi symud o Lundain i gaban ynysig yng Nghymru er mwyn cwblhau eu record newydd. Pan fyddant yn ddamweiniol yn creu recordiad maes o sain gyfriniol nad oedd erioed wedi'i glywed gan glustiau dynol o'r blaen, mae plentyn rhyfedd yn dod i'w bywydau sy'n eu datgysylltu'n raddol o realiti, ac mae'r cwpl yn fuan yn cael eu dal rhwng ysbrydion hynafol y byd naturiol a'u bywydau blaenorol.

Black Church Bay

Dyddiad Rhyddhau: 2026

Cysylltiadau Cymreig: Rhys Marc Jones (ysgrifennwr-cyfarwyddwr), Tom Cullen, Julian Lewis Jones, Celyn Jones (cast), ffilmiwyd ar Ynys Môn. Ariannwyd gan Gronfa Cynhyrchu Ffilm Nodwedd Ffilm Cymru Wales drwy'r Loteri Genedlaethol (a ddyrannir gan Gyngor Celfyddydau Cymru) a Chymru Greadigol.

Crynodeb: ffilm iasol a dirgel. Pan mae athro'n creu cysylltiad agos â dyn iau, mae ei fywyd yn datod yn llwyr. Archwiliad o'r ymdrech fyddwn yn ei wneud i guddio ein wir hunaniaeth.

Effi o Blaenau

Dyddiad Rhyddhau: 2026

Cysylltiadau Cymreig: Marc Evans (cyfarwyddwr), Branwen Cennard (cynhyrchydd), Gary Owen (ysgrifennwr), Leisa Gwenllian, Tom Rhys Harries, Sion Eifion, Owen Alun, Nel Rhys Lewis, Mared Llywelyn, Carys Gwilym (cast), ffilmiwyd yn ei chyfanrwydd yng Nghymru. Ariannwyd gan Gymru Greadigol ac S4C. Ffilm Gymraeg ei hiaith.

Crynodeb: Pan mae Effi, sy'n ddi-waith, yn cwrdd ar hap â'r milwr Lee, sydd wedi'i anafu, mewn clwb nos yn Llandudno, mae drws yn agor i fywyd gwell am ennyd. Ond mae'r realiti sy'n dilyn yn llawer anoddach. Wrth iddi wynebu'r dyfodol fel darpar fam sengl mae stori Effi yn datgelu argyfwng cymdeithasol dwys: system heb ddigon o wardiau mamolaeth, prinder o fydwragedd a gormod o ddewisiadau amhosib sy'n cael ei gwneud allan o angenrheidrwydd yn hytrach na gofal.

Madfabulous

Dyddiad Rhyddhau: 2026

Cysylltiadau Cymreig: Celyn Jones (cyfarwyddwr), Lisa Baker (ysgrifennwr sgript), Callum Scott Howells (cast), Mad as Birds (cwmni cynhyrchu). Ariannwyd gan Gronfa Cynhyrchu Ffilm Nodwedd Ffilm Cymru Wales drwy'r Loteri Genedlaethol (a ddyrannir gan Gyngor Celfyddydau Cymru) a Chymru Greadigol.

Crynodeb: Pan mae Henry Cyril Paget yn etifeddu ffortiwn, mae ei ffordd o fyw gwastraffus ac ecsentrig yn ei ddifetha'n llwyr. Mae e'n marw'n dlawd yn Ffrainc yn 29 oed, ar ôl gwastraffu ei gyfoeth enfawr.

On the Sea

Dyddiad Rhyddhau: 2026

Cysylltiadau Cymreig: Celyn Jones (actor), ffilmiwyd ar Ynys Môn, wedi'i osod yng nghymuned bysgota Gogledd Cymru.

Crynodeb: Mae Jack wedi bod yn briod â Maggie am dros hanner ei oes. Mae'n gweithio fel cribiniwr â llaw ar y gwelyau cregyn gleision yng Ngogledd Cymru ochr yn ochr â'i frawd iau, Dyfan, a thri mab Dyfan. Mae Jack bob amser wedi cymryd yn ganiataol y bydd ei fab Tom yn ymuno â'r busnes teuluol ar ôl gadael yr ysgol ond mae gwrthwynebiad Tom i ddilyn y trywydd hwn yn creu tensiwn teuluol. Mae tensiynau'n cynyddu ymhellach gan ddyfodiad gweithiwr teithiol, Daniel, sy'n gwneud ei deimladau tuag at Jack yn amlwg. Yn y gymuned anghysbell, wledig hon lle mae bywyd yn ymwneud yn llwyr â'r Eglwys a physgota, mae Jack yn wynebu penbleth amhosibl.

Learning to Breathe Underwater

Dyddiad Rhyddhau: 2026

Cysylltiadau Cymreig: Nan Davies (cyd-gynhyrchydd, One Wave Films). Ariannwyd gan Gronfa Cynhyrchu Ffilm Nodwedd Ffilm Cymru Wales drwy'r Loteri Genedlaethol (a ddyrannir gan Gyngor Celfyddydau Cymru) a Chymru Greadigol.

Crynodeb: Gan gyd-gynhyrchwyr y llwyddiant diweddar Kneecap, mae'r ffilm yn dilyn bachgen wyth oed (y newydd-ddyfodiad Ezra Carlisle) wrth iddo lywio bywyd ar ôl marwolaeth ei fam tra bod ei dad yn symud yn wyllt rhwng creadigrwydd manig a gor-bryder gwanychol. Mae dyfodiad 'au pair' o Fwlgaria (a chwaraeir gan Maria Bakalova), yn dod â newidiadau annisgwyl i'r aelwyd.

Mission

Dyddiad Rhyddhau: 2026

Cysylltiadau Cymreig: Lowri Roberts (cynhyrchydd). Ariannwyd gan Gronfa Cynhyrchu Ffilm Nodwedd Ffilm Cymru Wales drwy'r Loteri Genedlaethol (a ddyrannir gan Gyngor Celfyddydau Cymru) a Chymru Greadigol.

Crynodeb: Mae Mission yn archwiliad pync o'r seice sy'n dilyn Dylan (George MacKay) wrth iddo ddianc rhag ei fywyd unig a cheisio profi uchafbwyntiau ac isafbwyntiau bodolaeth ar ei eithafol, gan gychwyn ar daith wefreiddiol o hunan-ddarganfod sy'n profi'n ysbrydoledig ac yn frawychus.

Out There

Dyddiad Rhyddhau: 2026

Cysylltiadau Cymreig: Simon Ryninks (cyfarwyddwr), Katie Dolan (cynhyrchydd), Aneurin Barnard, Michael Sheen, Iwan Rheon, Tom Moya, Nerys Amber Stocks, Remy Beasley, Matthew Aubrey (cast), ffilmwyd yng Nghaerdydd, Porthcawl, Merthyr Mawr, Aberystwyth. Ariannwyd gan Gronfa Cynhyrchu Ffilm Nodwedd Ffilm Cymru Wales drwy'r Loteri Genedlaethol (a ddyrannir gan Gyngor Celfyddydau Cymru) a Chymru Greadigol.

Crynodeb: Ar ôl i Maz, merch 16 oed sy'n frwdfrydig dros seryddiaeth, weld UFO uwchben ei thref glan môr yng Nghymru, mae hi'n ymuno â'i ffrind gorau amheus a damcaniaethwr cynllwyn alltud i lansio ymchwiliad a fydd yn peryglu ei pherthnasoedd, a'i bywyd. Yn llawn drama twymgalon a throeon doniol, mae Out There yn ffilm gadarnhaol am gred, dod o hyd i ystyr a dod i delerau â cholled.

Proud

Dyddiad Rhyddhau: 2026

Cysylltiadau Cymreig: Rob Alexander (cynhyrchydd). Ariannwyd gan Gronfa Cynhyrchu Ffilm Nodwedd Ffilm Cymru Wales drwy'r Loteri Genedlaethol (a ddyrannir gan Gyngor Celfyddydau Cymru) a Chymru Greadigol.

Crynodeb: Mae'r ffilm ddogfen hon yn dilyn yr actor/ysgrifennwr anabl David Proud. Mae David yn dyheu am deulu erioed, ond mae'r technegau ffrwythlondeb sydd eu hangen arno wedi'u cynllunio i greu "plant iach" a sgrinio a gwrthod pobl anabl fel ef.

Smoking Shores

Dyddiad Rhyddhau: 2026

Cysylltiadau Cymreig: Dewi Gregory (cynhyrchydd), Truth Department (cwmni cynhyrchu), Michael Sheen (cynhyrchydd gweithredol), Port Talbot (lleoliad ffilmio). Ariannwyd gan Gronfa Cynhyrchu Ffilm Nodwedd Ffilm Cymru Wales drwy'r Loteri Genedlaethol (a ddyrannir gan Gyngor Celfyddydau Cymru) a Chymru Greadigol.

Crynodeb: ffilm ddogfen yn dilyn grŵp caeedig o syrffwyr lleol drwy dirwedd anhygoel tref dur, Port Talbot.

Stuffed

Dyddiad Rhyddhau: 2026

Cysylltiadau Cymreig: Ffilmiwyd yn Ne Cymru. Ariannwyd gan Gronfa Cynhyrchu Ffilm Nodwedd Ffilm Cymru Wales drwy'r Loteri Genedlaethol (a ddyrannir gan Gyngor Celfyddydau Cymru) a Chymru Greadigol.

Crynodeb: Mae Araminta (Jodie Comer) yn dacsidermydd sydd â'r uchelgais gyfrinachol o stwffio sbesimen dynol. Pan mae hi'n cyfarfod y dyn unig Bernie (Harry Melling), maent yn creu cytundeb sy'n datblygu'n garwriaeth annhebygol.

The Scurry

Dyddiad Rhyddhau: 2026

Cysylltiadau Cymreig: Craig Roberts (cyfarwyddwr), Cliff Edge Pictures (cwmni cynhyrchu), Rhys Ifans (cast), ffilmiwyd yn Stiwdio'r Ddraig, Pen-y-bont.

Crynodeb: Mae The Scurry yn dilyn dau reolwr plâu sy'n cael eu galw i eco-gaffi mewn parc gwledig i ymchwilio i broblem fermin digon cyffredin. Wrth iddi nosi mae lluo o wiwerod gwallgof yn glanio yno ac yn dial ar y staff a'r ymwelwyr yn y parc. Wrth i nifer o bobl farw, mae'r goroeswyr yn swatio yn y caffi rhag storm ofnadwy sy'n diffodd y pŵer a'r gallu i gyfathrebu, gan eu gadael yn ynysig ac o dan ymosodiad.

Unspeakable

Dyddiad Rhyddhau: 2026

Cysylltiadau Cymreig: Elwen Rowlands (cynhyrchydd), Little Door (cwmni cynhyrchu). Ariannwyd gan Gronfa Cynhyrchu Ffilm Nodwedd Ffilm Cymru Wales y Loteri Genedlaethol (a ddyrannir gan Gyngor Celfyddydau Cymru) a Chymru Greadigol.

Crynodeb: Mae cywilydd mam newydd am deimlo diffyg cysylltiad â'i babi yn denu drygioni hynafol, gan ei gorfodi hi i frwydr anobeithiol i achub ei phlentyn.

Nodiadau i Olygyddion:

Nodiadau ar ddiffiniadau

Mae Cysylltiadau Cymreig yn cyfeirio at ffilmiau gydag un neu fwy o'r canlynol:

- Cynnwys talent ffilm o Gymru (cyfarwyddwr/cynhyrchydd/ysgrifennwr/prif gast),
- Wedi'i wneud gan gwmnïau cynhyrchu neu wneuthurwyr ffilm sy'n weithgar yng Nghymru (gan gynnwys y rhai a wneir gyda chyllid asiantaeth neu Lywodraeth Cymru),
- Wedi'u gosod yng Nghymru, neu sy'n delio â straeon, digwyddiadau neu bobl Cymru (go iawn neu ffuglennol),
- Wedi'i gwneud yn yr iaith Gymraeg,
- Straeon rhyngwladol gan dalent Cymru.

Am Ganolfan Ffilm Cymru

Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn ariannu, hyfforddi ac yn

cynghori sefydliadau sy'n dangos ffilmiau annibynnol o'r DU a ffilmiau rhyngwladol, o wyliau ffilm i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros [270 o arddangoswyr](#) ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru a'r DU. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 380 o brosiectau sinema a chyrraedd dros 717,500 o aelodau cynulleidfa.

Rydym yn rhan o rwydwaith ledled y DU o wyth canolfan a ariennir gan y Loteri Genedlaethol trwy'r Sefydliad Ffilmiau Prydeinig (BFI) sy'n ffurfio'r [Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm \(FAN\)](#). Rheolir Canolfan Ffilm Cymru gan [Chapter](#). Rydyn ni hefyd yn arwain Gwnaethpwyd yng Nghymru, prosiect sy'n dathlu ffilmiau sydd â chysylltiadau Cymreig, a gefnogir gan Gymru Greadigol. Rydym hefyd yn falch o fod wedi arwain ar strategaeth Sinema Gynhwysol DU ar ran BFI FAN 2017-23.

Ganolfan Ffilm Cymru: [Gwefan](#), [X \(Twitter gynt\)](#), [Facebook](#),
Gwnaethpwyd yng Nghymru: [Instagram](#), [TikTok](#), [Facebook](#), [podlediad Gwnaethpwyd yng Nghymru](#), [YouTube](#), [Letterboxd](#).

Am Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI

Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Genedlaethol, mae FAN BFI yn ganolog i nod y BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilm ar gael i bawb. Wedi'i sefydlu yn 2012 i adeiladu cynulleidfaoedd sinema DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, mae FAN yn gydweithrediad DU gyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth o ganolfannau a reolir gan gyrff a lleoliadau ffilm amlwg wedi'u lleoli'n strategol o amgylch y wlad. Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiad talent gyda Swyddogion Talent Rhwydwaith BFI ym mhob un o'r canolfannau yn Lloegr, gyda chenhadaeth o ddarganfod a chefnogi ysgrifenyddwyr, cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI:

- Canolfan Ffilm Canolbarth Lloegr dan arweiniad Broadway, Nottingham yn gweithio mewn partneriaeth gyda Flatpack Birmingham
- Canolfan Ffilm Gogledd Lloegr dan arweiniad Showroom Workstation, Sheffield a HOME Manceinion
- Canolfan Ffilm De Ddwyrain Lloegr dan arweiniad Swyddfa Sinema Annibynnol
- Canolfan Ffilm De Orllewin Lloegr dan arweiniad Watershed ym Mryste
- Canolfan Ffilm yr Alban dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Canolfan Ffilm Gogledd Iwerddon dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Canolfan Ffilm Llundain dan arweiniad Film London

[Gwefan](#)

Am BFI

Rydym yn elusen ddiwylliannol, dosbarthydd y Loteri Genedlaethol a chorff arweiniol y DU ar gyfer ffilm a'r ddelwedd symudol. Ein cenhadaeth ydy:

- Cefnogi creadigrwydd a chwilio am y genhedlaeth nesaf o adroddwyr straeon y DU
- Tyfu a gofalu am Archif Cenedlaethol BFI, archif ffilm a theledu mwyaf y byd
- Cynnig yr amrediad ehangaf o ddiwylliant delwedd symudol DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau – ar-lein ac mewn canolfannau
- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd
- Gweithio gyda Llywodraeth a diwydiant i sicrhau twf parhaol diwydiannau sgrin y DU

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen gofrestredig a reolir gan Siarter Brenhinol. Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Jay Hunt.

[Gwefan](#), [Facebook](#), [X \(Twitter gynt\)](#), [Instagram](#)

Am Chapter

Mae Chapter yn lleoliad ar gyfer diwylliant a chelfyddydau cyfoes, sydd â'i wreiddiau yng Nghaerdydd, Cymru. Cafodd ei sefydlu gan artistiaid yn 1971 i ddathlu arbrofi a meddwl radical, ac rydyn ni wedi bod yn sbardun ar gyfer creadigrwydd a meddwl beirniadol byth ers hynny.

Rydyn ni'n ganolfan ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno gwaith arloesol, difyr, o safon fyd-eang. Mae ein horiel yn comisiynu ac yn cynhyrchu arddangosfeydd o'r gwaith gorau ym maes celf genedlaethol a rhyngwladol. Mae ein mannau theatr yn llwyfan ar gyfer dramâu, dawns, cerddoriaeth, celf fyw a llawer mwy sy'n arbrofol ac yn ysgogi'r meddwl. Mae ein sinemâu yn cynnig ffilmiau annibynnol a heriol, ochr yn ochr ag ystod o wyliau a digwyddiadau unigryw, ac rydyn ni'n cyflwyno mwy o ffilmiau, i fwy o bobl, mewn mwy o lefydd, drwy Ganolfan Ffilm Cymru.

Ochr yn ochr â'n rhaglen graidd, rydyn ni hefyd yn gartref i fwy na 50 o artistiaid a chwmnïau creadigol sydd wedi'u lleoli yn ein stiwdios. O animeiddwyr a chwmnïau cynhyrchu ffilm sydd wedi ennill gwobrau, i artistiaid, dylunwyr a ffotograffwyr, ac i stiwdios fframio celf, printio, a recordio, mae ein cymuned greadigol wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud.

Mae ein rhaglen a'n cymuned yn dod at ei gilydd yn ein caffi bar clodwiw sydd â lle i tua 120 o bobl eistedd, ac mae'n lle gwych i gwrdd â ffrindiau, i ganfod cornel dawel i wneud ychydig o waith oddi cartref, neu i gael tamaid o fwyd a diod ffres a lleol.

Y tu allan, rydyn ni'n falch o weithio gyda Garddwyr Cymunedol Treganna sy'n meithrin ein mannau gwyrdd ac yn rhannu eu gwybodaeth drwy waith allgymorth gydag ysgolion a'n cymunedau lleol. Maen nhw'n gofalu am ein gwenyn hyfryd hefyd!

Mae llawer o bobl yn ymweld â ni wrth fynd i ystod o ddosbarthiadau, gweithdai a digwyddiadau cyffrous sy'n cael eu cynnal gan wahanol fusnesau lleol bob dydd. Rhowch gynnig ar greu printiau, Lindy Hop, Tae Kwando, ballet, tap, cerddoriaeth i fabanod, y gerddorfa ieuencid, a llawer mwy, yn awyrgylch cynhwysol ein safle ymlaciol. Rydyn ni hefyd yn cynnig ystod o ofodau unigryw a rhesymol i'w llogi os ydych chi'n chwilio am safle ffilmio anarferol, lleoliad hygyrch ar gyfer cynhadledd neu gyfarfod, neu rywle i ddathlu achlysur arbennig.

Mae croeso i bawb!

[Gwefan](#), [Facebook](#), [Instagram](#)

Am Gymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol yn un o asiantaethau mewnol Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi datblygiad y diwydiant creadigol sy'n tyfu'n gyflym yng Nghymru. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu a hyrwyddo twf ar draws y sectorau Sgrin, Digidol, Cerddoriaeth a Chyhoeddi, gan leoli Cymru fel un o'r lleoedd gorau yn y byd i fusnesau creadigol ffynnu.

[Gwefan](#)